

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gymuned Y Ffridd

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gymuned y Ffridd yn gymuned hapus, ofalgar a chartrefol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. Mae'r ysgol yn un gynhwysol lle mae staff ac arweinwyr yn hyrwyddo perthnasoedd iach yn dda, gyda phwyslais penodol ar sicrhau cyfle cyfartal, cydraddoldeb a thegwch i bob disgybl.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau darllen, dealltwriaeth fathemategol a chreadigol yn bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Nodwedd gref o'r ysgol yw natur gyfeillgar y disgyblion. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn feddylgar am eraill. Maent yn sgwrsio'n  hollol naturiol ac yn dangos diddordeb a pharch wrth drafod gyda chyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae pwyslais cadarn ar werthoedd cytûn a gweledigaeth greadigol yn cefnogi athrawon a staff i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu. Mae gan staff berthynas waith arbennig â'r disgyblion. Maent yn sicrhau cyflymder addas i'r gweithgareddau dysgu. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion ac, o ganlyniad, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Er hyn, nid ydynt bob tro'n sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu ac ymestyn medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig y disgyblion yn ddigon adeiladol dros amser.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar sicrhau bod pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn rhan o dîm yr ysgol. Maent yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion a chydweithio tuag at y dyfodol. Mae'r arweinwyr, gan gynnwys y pennaeth a'r llywodraethwyr, yn gweithio yn effeithiol gyda'i gilydd a'r gymuned, sy'n sicrhau dealltwriaeth o amcanion yr ysgol yn effeithiol. Er hyn, nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn ddigon effeithiol i adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. O ganlyniad, nid yw blaenoriaethau gwella digon priodol yn cael eu hadnabod a'u gwireddu.

# Argymhellion

**A1** Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella priodol a chynllunio'n strategol i'w gweithredu

**A2** Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn annibynnol i adborth athrawon er mwyn gwella ansawdd eu gwaith a dewis eu dulliau o gyflwyno eu dysgu

**A3** Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig a'u medrau rhifedd

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymuned Y Ffridd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 85 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 67 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 10 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 16.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 20.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 74.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2011 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 29/01/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  03/04/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.